# Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

**2009 mccc 1**

## RHAN 4

### AMRYWIOL AC ATODOL

**46 Rheoliadau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cwricwlwm lleol**

(1) Os yw Gweinidogion Cymru o'r farn a grybwyllir yn is-adran (2), cânt wneud darpariaeth drwy reoliadau, at ddibenion penodedig deddfiad, ynghylch yr amgylchiadau—

(a) pan fo, neu pan na fo, person i'w ystyried—

(i) yn un y mae addysg yn cael ei darparu ar ei gyfer mewn ysgol;

(ii) yn ddisgybl ofrestredig ysgol neu riant cofrestredig disgybl o'r fath;

(iii) yn un sydd mewn ysgol;

(iv) yn un sy'n mynychu ysgol neu'n bresennol ynddi;

(v) yn un sy'n cael addysg mewn ysgol;

(vi) yn un sy'n astudio, neu'n bwriadu astudio, mewn ysgol;

(vii) yn un sy'n cael ei dderbyn i ysgol neu y gwrthodwyd ei dderbyn i ysgol;

(viii) yn un sy'n gwneud cais i gael ei dderbyn i ysgol, yn cynnig derbyn person i ysgol, yn derbyn neu'n gwrthod derbyn cais person i gael ei dderbyn i ysgol neu'n penderfynu derbyniadau i ysgol;

(ix) yn un sydd wedi penderfynu ym mha ysgol y darperir addysg i blentyn;

(x) yn un y caniateir codi taliadau ar ei gyfer ynghylch cael ei dderbyn i ysgol a gynhelir.

(b) pan fo, neu pan na fo, trefniadau ar gyfer darparu addysg ar ran ysgol i'w hystyried yn drefniadau derbyn;

(c) pan fo, neu pan na fo, trefniadau ar gyfer galluogi mynegi dymuniadau ynghylch ym mha ysgol y mae'r person sy'n mynegi'r dymuniad yn dymuno y darperir addysg ar ei gyfer ei hun neu ar gyfer person arall yn gymwys;

(d) pan fo, neu pan na fo, person i'w ystyried—

(i) yn un sy'n cael addysg neu hyfforddiant mewn sefydliad yn y sector addysg bellach;
(ii) yn un sy'n mynychu'r sefydliad hwnnw, neu'n bresennol ynddo;
(iii) yn fyfyriwr y sefydliad hwnnw, neu'n fyfyriwr sydd ynddo;
(iv) yn un sy'n astudio, neu'n bwriadu astudio, yn y sefydliad hwnnw;
(v) yn un sy'n gwneud cais i gael ei dderbyn i'r sefydliad hwnnw, yn cynnig derbyn person i'r sefydliad hwnnw, yn derbyn neu'n gwrthod derbyn cais person i gael ei dderbyn i'r sefydliad hwnnw, yn dethol person i gael ei dderbyn i'r sefydliad hwnnw neu'n penderfynu derbyniadau i'r sefydliad hwnnw;
(vi) mewn perthynas â'r sefydliad hwnnw, yn berson anabl.

(2) Y farn yw bod y ddarpariaeth yn angenrheidiol, yn ddymunol neu'n hwylus mewn cysylltiad â gweithredu'r diwygiadau a wnaed i Ddeddf Addysg 2002 (p. 32) a Deddf Dysgu a Medrau 2000 (p. 21) gan Rannau 1 a 2 o'r Mesur hwn.

(3) Mae'r dibenion y caniateir eu pennu o dan is-adran (1) yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â gwneud rheoliadau neu orchymyn o dan ddeddfiad.

(4) Yn yr adran hon mae "deddfiad" yn cynnwys deddfiad—
(a) sydd wedi'i gynnwys yn y Mesur hwn; neu
(b) sydd wedi'i gynnwys mewn Deddf Seneddol neu un o Fesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gaiff ei basio ar ôl pasio'r Mesur hwn.